Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Craig Yr Wylfa**
**Francis Road**
**Borth**
**Ceredigion**
**SY24 5NJ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg.)**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Craig yr Wylfa ym mhentref Borth sydd ryw wyth milltir i'r gogledd o dref Aberystwyth. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig sydd o amgylch.

Mae 40 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 12 disgybl oed meithrin amser llawn. Maent wedi'u trefnu mewn dau ddosbarth o oed cymysg. Mae'r disgyblion yn cael eu derbyn yn amser llawn i'r ysgol ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r ysgol wedi adnabod oddeutu 23% o'r disgyblion fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn agos i'r ffigwr cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan tua 27% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio am ddim, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Saesneg yw prif iaith y cartref i tua 94% o'r disgyblion. Mae cyfran arwyddocaol o ddisgyblion sy'n hwyrddyfodiaid heb brofiad blaenorol o ddysgu Cymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn yr ysgol.

Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Mawrth 2011 ac mae ganddo gyfrifoldeb dros ddwy ysgol arall yn yr ardal. Caiff ei gefnogi gan bennaeth cynorthwyol dros dro sydd hefyd yn athrawes yn y Cyfnod Sylfaen.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2008. Ers hynny, mae'r ysgol yn rhan o gynllun anffurfiol o ffederaleiddio gydag Ysgol Gymunedol Llangynfelyn ac Ysgol Gymunedol Talybont.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Craig Yr Wylfa yn 2013-2014 yw £5,673. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd sir Ceredigion yw £9,062 a'r lleiafswm yw £3,119. Mae Ysgol Craig Yr Wylfa yn yr wythfed safle o'r 51 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod tuedd o wella mewn canlyniadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
- bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau Cymraeg sylfaenol o oed cynnar;
- bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn dangos agweddau da tuag at ddysgu;
- bod yr ystod eang o brofiadau a ddarperir yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion;
- bod yr addysgu yn dda ar y cyfan; a
- bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos cartrefol a gofalgar.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth gadarn sydd yn seiliedig ar godi safonau;
- bod tîm o staff addysgu a chymorth ymroddedig;
- bod y gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod meysydd priodol i'w gwella;
- bod cyswllt amlwg rhwng y broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella;
- bod yr ysgol yn gweithio'n dda mewn partneriaeth ag ysgolion eraill y ffederasiwn; a
- bod y cydweithio agos gyda'r corff llywodraethol, rhieni a phartneriaid eraill yn dylanwadu'n adeiladol ar waith yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion

A2 Gwella’r cynllunio i sicrhau cynnydd cyson ym medrau’r disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith ac ymateb i sylwadau’r athrawon

A4 Adolygu’r gweithdrefnau ar gyfer pennu ac adolygu targedau i’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

A5 Gwella medrau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion cyfnod allweddol 2

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol lleiafrif y disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol islaw'r disgwyliedig. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu o'u man cychwyn. Mae nifer sylweddol o hwyrddyfodiaid o ran y Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando'r disgyblion yn dda. Mae'r mwyafrif yn medru adalw dysgu blaenorol yn effeithiol, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol yn eu gwaith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn gyson, gyda'r disgyblion hŷn yn cyfathrebu'n hyderus wrth drafod eu gwaith ac mewn sefyllfaoedd amrywiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n rhydd ac yn dangos gafael briodol ar eirfa bynciol a chyffredinol wrth drafod eu gwaith. Mae ychydig o'r disgyblion yn brin o ystod o eirfa i drafod ac ymateb yn llawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn Saesneg ac yn trafod a rhannu syniadau'n effeithiol mewn amryw o gyd-destunau.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sydd yn briodol i'w hoed a'u gallu gan ddefnyddio strategaethau addas wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn effeithiol, yn enwedig eu llyfrau Saesneg. Gwna rhan fwyaf y disgyblion ddefnydd addas o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau ac oddi ar wefannau.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol i ystod o ddibenion. Gallant ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb da. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan ddangos gafael sicr ar fedrau atalnodi. Nid yw gafael lleiafrif y disgyblion ar batrymau brawddegol Cymraeg wedi ei datblygu'n llawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm ond anghyson yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig. Nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn ddigon taclus bob amser.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol gyda chywirdeb da gan ddefnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth ar ffurf graffiau yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn gweithgareddau hanes a gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Maent yn defnyddio dulliau addas i ymgymryd â'u tasgau mesur, siâp a thrin data gyda chywirdeb da. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf graffiau syml. Nid yw'r disgyblion hŷn yn gwneud digon o ddefnydd o wahanol fathau o graffiau i gyflwyno eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol mewn gwaith ymchwil, er enghraifft drwy ddadansoddi poblogaeth gwledydd eraill a chymharu'r tymheredd gyda'r ardal leol. Mae disgyblion yn dechrau defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol i ddatrys problemau bywyd go iawn megis dadansoddi amserlenni bysiau a threnau er mwyn trefnu teithiau.

Mae'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson.

Rhaid trin data am berfformiad yr ysgol dros amser yn ofalus gan fod nifer y disgyblion mewn blwyddyn a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n arwyddocaol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ginio am ddim. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol yn fwy anwastad. Mewn medrau iaith, roedd canlyniadau'r disgyblion ar y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch. Mewn datblygiad mathemategol, roedd y canlyniadau ar y deilliant disgwyliedig yn y 50% uwch, ac yn y 25% isaf o ran y deilliant uwch.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion dros bedair blynedd ar y lefel ddisgwyliedig a'r lefel uwch wedi bod yn anwastad ond yn dangos cynnydd da yn y ddwy flynedd ddiwethaf i fod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn rhan fwyaf y dangosyddion.

**Lles: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach drwy fwyta ffrwythau a llysiau'n rheolaidd a gwneud ymarfer corff yn gyson. Mae'r disgyblion yn cystadlu'n frwd ac wedi profi cryn lwyddiant mewn gwahanol feysydd megis nofio, pêl-droed a rhedeg traws-gwlad.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn gweithio'n gynhyrchiol ag eraill o fewn eu grwpiau. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn medru troi at aelodau o staff yr ysgol am help pan fo angen. Mae eu hymddygiad yn gyson dda tuag at staff, ymwelwyr a thuag at ei gilydd. Maent yn ymdrin â phawb gyda pharch a chwrteisi.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Maent yn ymgymryd â rôl 'helpwr y dydd' a monitoriaid gyda balchder. Mae aelodau o'r cyngor ysgol, sydd hefyd yn gyfrifol am y gwaith eco, yn cyfrannu'n adeiladol at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hysgol. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys trafodaethau i sicrhau mwy o adnoddau TGCh ac offer chwarae. Fel rhan o'u gwaith

i ddatblygu amgylchedd yr ysgol, mae'r aelodau wedi llwyddo i gael bocsys adar a bocsys ystlumod wedi eu gosod ar y safle.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at fywyd y gymuned drwy gynnal gwasanaethau yn y pentref, gwaith elusennol, a thrwy gyfrannu at weithgareddau gyda'r henoed. Mae'r profiadau hyn yn datblygu amrediad o fedrau cymdeithasol sy'n paratoi'r disgyblion yn effeithiol ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol.

Mae canran presenoldeb yr ysgol yn gyson wedi bod yn y 25% uchaf a'r 50% uwch o blith ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r athrawon yn cynllunio ystod addas o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ynghyd ag ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr, yn cyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach.

Mae trefn briodol i gyflwyno'r cwricwlwm drwy gyfres o themâu sy'n addas i oed a diddordebau'r disgyblion. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn ddigon bwriadus bob amser i sicrhau dilyniant a pharhad cyson ym medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon wedi dechrau cymhwyso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol yn eu cynlluniau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn cynorthwyo rhan fwyaf y disgyblion i wneud cynnydd priodol o'u man cychwyn. Mae cyfleoedd amrywiol trwy waith trawsgwricwlaidd diddorol a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol i'r disgyblion ddysgu am eu hardal a diwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae addysg ar gyfer datblygiad dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu'n dda drwy waith elusennol a'r cysylltiadau buddiol gydag ysgolion mewn gwledydd eraill. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am faterion amgylcheddol drwy weithgareddau ailgylchu, datblygu ardal wyllt yr ysgol, ac ymweliadau â chanolfan coedwigaeth a gwarchodfa natur.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac adlewyrchir hyn yn y cynllunio manwl ar gyfer gwersi. Maent yn gwneud defnydd priodol o ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol sy'n sicrhau ymrwymiad gweithredol y disgyblion yn eu dysgu. Mae cyflwyniadau clir, holi a rhyngweithio da, a chyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio fel parau a grwpiau. Mewn ychydig o sesiynau, nid yw'r tasgau yn cynnig yr her briodol i ddisgyblion o alluoedd gwahanol.

Mae'r berthynas waith gynnes rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y dosbarthiadau. Mae staff cymorth, a gwirfoddol, yn darparu

cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion o fewn y dosbarthiadau ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol systemau olrhain cynnydd manwl sy'n cofnodi canlyniadau profion pob disgybl. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o'r wybodaeth i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl y galw.

Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn fanwl. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymateb i sylwadau a mynd i'r afael â'r agweddau hynny sydd angen sylw. Mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, ac i osod targedau, ond nid ydynt wedi eu datblygu'n llawn ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni o ansawdd da ac yn cwrdd â'r gofynion statudol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned hapus a gofalgar sy'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo a chefnogi iechyd a lles disgyblion yn dda ac mae ganddi bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith. Mae cyfleoedd effeithiol i hybu iechyd a ffitrwydd drwy wersi addysg gorfforol a thrwy brofiadau gyda'r clybiau chwaraeon a gweithgarwch chwaraeon amrywiol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae sesiynau addoli ar y cyd, amser cylch a'r cydweithio da gyda'r gymuned leol yn cynnig profiadau buddiol sydd yn cyfrannu at hyn.

Mae trefniadau manwl i adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol drwy arsylwi, cyd-drafod a chynnal asesiadau ffurfiol. Mae'r disgyblion yn derbyn cynhaliaeth effeithiol o fewn eu grwpiau ymyrraeth ac ar lefel unigol gan gymorthyddion profiadol. Mae gan y disgyblion gynlluniau addysg unigol priodol sydd yn sail i drafodaethau gyda'r disgyblion a'u rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer gosod ac adolygu targedau'r disgyblion yn ddigon cadarn bob amser i gynnig darlun clir o'u hanghenion a'u datblygiad.

Mae'r cysylltiadau adeiladol gyda gwasanaethau arbenigol, megis gwasanaethau cymdeithasol a meddygol, a swyddogion lles, yn sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion, staff a rhieni fel ei gilydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae'r ethos hwn yn un o gryfderau'r ysgol ac mae'n seiliedig ar

weithredu polisïau a gweithdrefnau priodol sy'n sicrhau mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac yn hyrwyddo parch at bawb.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o'r adeiladau a'r safle. Mae'r arddangosfeydd ar hyd coridorau a dosbarthiadau'r ysgol yn dangos samplau o waith a phrofiadau'r disgyblion yn briodol. Mae digon o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau cyffredinol.

Mae'r ardal allanol wedi'i datblygu'n effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddilyn rhai argymhellion y cyngor ysgol. Er enghraifft, mae ardal natur wedi'i chreu i dyfu planhigion ac i ddenu adar gwyllt yr ardal. Mae defnydd llawn o ardal ddysgu allanol y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu medrau dysgu'r disgyblion mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r adeiladau a'r tir yn cael eu cynnal a'u cadw i safon briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth strategol gadarn sy'n gosod cyfeiriad clir i waith yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Caiff ei gefnogi'n effeithiol gan y pennaeth cynorthwyol dros dro.

Mae disgrifiadau swydd pob aelod o staff yn adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ar draws yr ysgol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar safonau cyflawniad a chynnydd disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Trwy ystyried data, trafodaethau gyda'r pennaeth ac ymweliadau â'r ysgol, mae ganddynt wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn eu cynorthwyo i herio'r ysgol yn hyderus ynglŷn ag agweddau ar y ddarpariaeth a safonau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael sylw addas. Mae'r athrawon yn datblygu'r defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill y ffederasiwn er mwyn cyd-gynllunio.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrediad o ffynonellau i arfarnu ei pherfformiad. Mae'n casglu ac yn rhoi ystyriaeth deg i safbwyntiau disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r awdurdod lleol.

Mae ystod briodol o ddulliau arfarnu ar waith i adnabod cynnydd disgyblion a mannau gwelliant. Mae'r pennaeth yn monitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd trwy ddehongli data, arsylwi gwersi, sgwrsio gyda'r disgyblion a chraffu

ar eu gwaith. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o hyn yn cynnig arweiniad defnyddiol i'r athrawon ac i'r corff llywodraethol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl a chynhwysfawr ac mae pob aelod o staff a'r llywodraethwyr yn cyfrannu ato. Mae'n adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn glir.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen weithredol ac mae'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r materion sy'n cael eu nodi yn yr hunanarfarniad. Mae'r cynllun yn cynnwys amcanion penodol a mesuradwy sydd wedi eu cyllido ynghyd â'u hamserlennu. Mae'r rhain yn rhoi ffocws adeiladol ar gynllunio i'r dyfodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaeth agos gyda'r rhieni sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd lles ac addysg y disgyblion. Mae cysylltiadau buddiol gyda Chymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon yr ysgol sy'n cyfrannu'n hael tuag at godi arian ar gyfer prynu a gwella adnoddau dysgu. Mae'r offer TGCh a brynwyd yn ddiweddar yn enghraifft o hyn ac yn adnoddau gwerthfawr sy'n cynorthwyo'r disgyblion gyda'u gwaith.

Mae cysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned, sefydliadau a busnesau lleol. Mae'r disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau yn y gymuned ac yn cyfrannu'n rheolaidd at weithgareddau megis mabolgampau a chyngherddau. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o'u cynefin. Mae'r ysgol yn derbyn cymorth nifer o wirfoddolwyr o'r gymuned a ffrindiau'r ysgol i gynorthwyo gyda gweithgareddau megis gwrando ar ddarllen a datblygu agweddau o'r ardal allanol.

Mae'r cysylltiadau cryf rhwng yr ysgol a'r lleoliadau cyn-ysgol yn y pentref yn sicrhau trosglwyddo didrafferth i'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion. Mae cynlluniau pontio effeithiol yn helpu disgyblion i symud yn hyderus i'r ysgol uwchradd.

Mae cysylltiadau agos gydag ysgolion lleol. Mae'r cyswllt gyda'r ddwy ysgol arall o fewn y drefn ffederal yn gryfder ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddarparu cyfleoedd i'r athrawon gyd-gynllunio a rhannu arfer dda.

Mae'r cyswllt agos gyda'r ysgol uwchradd ac ysgolion eraill o fewn y clwstwr yn cynnig cyfleoedd effeithiol i'r staff gydweithio ag eraill i safoni a chymedroli asesiadau athrawon. Mae defnydd adeiladol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu a chefnogi'r staff er mwyn codi safonau ymhellach.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o arbenigedd athrawon a staff cynorthwyol er mwyn gweithredu cwricwlwm yr ysgol. Maent yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a datblygiad y disgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn effeithiol. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r

ysgol.  Mae hyn yn galluogi’r athrawon i ymestyn eu harbenigedd a diweddaru eu strategaethau addysgu.  Mae trefniadau priodol yn eu lle i gynnig amser cynllunio, paratoi ac asesu i’r athrawon.

Mae’r athrawon yn manteisio ar y cydweithio agos gydag ysgolion eraill y ffederasiwn ac ysgolion y clwstwr i rannu profiadau ac arfer dda er mwyn gwella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau.  Enghraifft o hyn yw’r cydweithio agos gydag ysgolion lleol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion.

Mae’r ystod o adnoddau a chyfleusterau dysgu yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi'r dysgu a’r addysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidebol effeithiol sy’n sicrhau darpariaeth yn seiliedig ar flaenoriaethau cynllun gwella’r ysgol.  Gwna’r ysgol ddefnydd da o gyllid ychwanegol, megis grantiau, i ehangu’r adnoddau er mwyn ymestyn profiadau addysgol y disgyblion.  Caiff y gwariant ei fonitro’n rheolaidd ac yn ofalus gan y pennaeth, y corff llywodraethol a swyddog cyllid yr awdurdod lleol.

O ystyried safonau’r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin data am berfformiad yr ysgol dros amser yn ofalus gan fod nifer y disgyblion mewn blwyddyn ysgol a'r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a'r deilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion ym mhob maes a aseswyd. O gymharu ag ysgolion â chyfartaleddau tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn y 25% uchaf o ran y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch.

Yn asesiadau 2013, roedd canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol. Roedd ychydig yn is mewn datblygiad personol a chymdeithasol. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i ginio am ddim, roedd y canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a'r 50% is mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol, ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 dros bedair blynedd, roedd perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg. Roedd y canlyniadau ar i fyny yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob pwnc. Gan eithrio'r Gymraeg, roedd y canlyniadau ar y lefel uwch (lefel 5) hefyd wedi cynyddu ac yn y 25% uchaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

Nid oes patrwm cyson o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 23 | 23<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 23 | 22<br>96% | 1<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 23 | 21<br>91% | 2<br>9% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 23 | 21<br>91% | 2<br>9% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 6 | 5 | 1 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 46% | 38% | 8% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 8 | 3 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 62% | 23% | 0% | 8% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 8 | 4 | 0 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 62% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 6 | 5 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 46% | 38% | 0% | 8% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 5 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 38% | 46% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 7 | 4 | 0 | 1 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 54% | 31% | 0% | 8% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 7 | 3 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 54% | 23% | 15% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 4 | 5 | 0 | 2 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 31% | 38% | 0% | 15% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 7 | 4 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 54% | 31% | 0% | 8% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 7 | 4 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 54% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 7 | 3 | 1 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 54% | 23% | 8% | 8% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 13 | 7 | 3 | 0 | 1 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 23% | 0% | 8% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 5 | 5 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 38% | 38% | 15% | 8% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 6<br>46% | 6<br>46% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 6<br>46% | 5<br>38% | 1<br>8% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 7<br>54% | 2<br>15% | 1<br>8% | 1<br>8% | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 5<br>38% | 3<br>23% | 1<br>8% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 8<br>62% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 12 | 5<br>42% | 4<br>33% | 1<br>8% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Dilys Ellis-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Hefin Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.